



Ein cyf/Our ref: MA(L)/KW/0396/17

Lynne Neagle AC
Cadeirydd
Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg

Simon Thomas AC
Cadeirydd
Y Pwyllgor Cyllid

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Tŷ Hywel
Bae Caerdydd
CF99 1NA

SeneddCYPE@assembly.wales
SeneddFinance@assembly.wales

11 Gorffennaf 2017

Annwyl Lynne a Simon,

Ysgrifennaf atoch i dynnu eich sylw chi a'ch cymunedau at ddatganiad ysgrifenedig a gyhoeddwyd heddiw am y rhaglen trawsnewid anghenion dysgu ychwanegol.

Ym mis Mawrth, ysgrifennais atoch gyda rhagor o wybodaeth am sut y bydd y pecyn cymorth £20 miliwn ar gyfer y rhaglen trawsnewid yn cael ei ddyrannu i gefnogi'r gwaith o weithredu Bil Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) a'r rhaglen ehangach. Ar y pryd, dywedais y gallai'r dyraniadau hyn newid wrth i'n gwaith gyda phartneriaid cyflenwi fynd rhagddo. Mae'r gwaith cyd-ddatblygu hwn yn parhau, ond rwyf wedi cytuno ar elfen sylweddol o'n dull o weithredu - sef cyllido pum arweinydd trawsnewid anghenion dysgu ychwanegol a fydd yn cefnogi darpariaeth y rhaglen.

Bydd pedwar o'r arweinwyr trawsnewid yn gweithio yn unol ag ôl-troed y consortia addysg rhanbarthol a bydd yna hefyd arweinydd trawsnewid addysg bellach a fydd yn gweithio ledled Cymru gyfan. Bydd yr arweinwyr yn gwneud cyfraniad hollbwysig at roi ein strategaeth ar waith, gan sicrhau bod partneriaid cyflenwi yn barod, gydag adnoddau digonol, wedi'u hyfforddi ac yn cydweithio er budd plant a phobl ifanc ag anghenion dysgu ychwanegol, gan ofalu bod y dysgwyr hyn yn ganolog ym mhopath.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Gohebiaeth.Alun.Davies@llyw.cymru
Correspondence.Alun.Davies@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Rydym yn parhau i drafod â Chymdeithas y Cyfarwyddwyr Addysg yng Nghymru a bwrdd Colegau Cymru a byddaf mewn sefyllfa i ddweud mwy am y rolau hyn yn yr hydref.

Mae'r datganiad ysgrifenedig hefyd yn cadarnhau y bydd grantiau gweithredu awdurdodau lleol yn cael eu cyfuno'n rhanbarthol. Bydd hyn yn sicrhau bod ein buddsoddiad yn cael ei ddefnyddio i'w lawn botensial drwy ymelwa ar arbedion maint a hwyluso gwell cynllunio a gwaith rhanbarthol. Bydd hefyd yn helpu i sicrhau bod cyn lleied â phosibl o fiwrocratiaeth mewn perthynas â'r grantiau a bod y ffocws ar ddarpariaeth gwasanaeth a gwerth am arian. Bydd hyn yn mynd i'r afael ag argymhelliad pedwar yn adroddiad cam 1 y Pwyllgor Cyllid i'r Bil.

Byddaf yn darparu dadansoddiad diwygiedig o'r costau ar gyfer gweithgareddau yn y rhaglen drawsnewid yn yr hydref. Byddaf yn gwneud hyn wrth gyhoeddi fersiwn ddiwygiedig o'r asesiad effaith rheoleiddiol.

Yn gywir

A handwritten signature in black ink, appearing to read 'Alun', with a horizontal line underneath.

Alun Davies AC/AM
Gweinidog y Gymraeg a Dysgu Gydol Oes
Minister for Lifelong Learning and Welsh Language